The Methodist Church

# Sul Galwad

Mae darlleniadau'r llithiadur eleni yn ein gwahodd i ystyried nad yw ein galwad yn digwydd ar wahân, ond fel rhan o barhad y gwaith mae Duw wedi'i wneud ac yn ei wneud.

**Galwad i addoli**

Moliannwn di y bore yma am mai ti yw'r ffordd y gwirionedd a'r bywyd.
Ti yw'r Duw sy'n creu gofodau a lleoedd i ni.
Ti yw'r Un sy'n eistedd ar yr orsedd, Conglfaen ein ffydd, Duw Cariad
Diolch dy fod, yma yn dy dŷ, yn ein croesawu ni i ddod fel yr ydym ni.
Amen.

**CFf 32 Trwy d'Ysbryd heddiw awn**

**Gweddïau o addoliad wedi'u hysbrydoli gan Salm 31:21 a Gweddi'r Arglwydd**
Mawl fo i'r Arglwydd,
**oherwydd dangosodd i ni ryfeddodau ei gariad.**

The Methodist Church

Ein Duw yw'r creawdwr.
Ein Duw yw Brenin y Brenhinoedd, ac Arglwydd yr Arglwyddi.
Ein Duw sydd drugarog.
Molwn ac addolwn Ef.

Mawl fo i'r Arglwydd,
**oherwydd dangosodd i ni ryfeddodau ei gariad.**

Molwn di am dy waith a ddangosir trwy'r holl greadigaeth.
Molwn di am fywyd dy Fab Iesu Grist, am ddangos dy gariad mewn gair a gweithred.
Molwn di am ein bod, trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu, yn cael maddeuant a'n gwahodd i fywyd newydd.

Mawl fo i'r Arglwydd,
**oherwydd dangosodd i ni ryfeddodau ei gariad.**

Diolchwn i ti am dy Ysbryd yn byw gyda ni.
Diolchwn i ti am anogaeth y llais tawel yn sibrwd yn ein bywydau, ein heglwysi a'n cymunedau.
Diolchwn i ti am barhau â'th waith drwom ni.

Mawl fo i'r Arglwydd,
**oherwydd dangosodd i ni ryfeddodau ei gariad.**

Dad, Mab ac Ysbryd Glân molwn dy enw sanctaidd.

Amen.

The Methodist Church

**Gweddi'r Arglwydd**

**Sgwrs pob oed – Beth yw'r sylfeini rydym wedi ein hadeiladu arnynt?**

*(Ceir cwestiynau isod i'w gofyn i'r gynulleidfa. Efallai y byddwch am ysgrifennu ar flychau y byddwch chi neu eraill wedyn yn eu hadeiladu i mewn i adeiladwaith. Neu efallai bod gennych chi PowerPoint yn barod gyda brics gwag, gan ychwanegu geiriau at frics.)*

Mae'r ddau destun Beiblaidd heddiw yn sôn am dai, ac mae'r ddau yn ein gwahodd i ystyried nad yw ein galwad yn digwydd ar wahân, ond fel rhan o'r gwaith parhaus mae Duw wedi'i wneud ac yn ei wneud.

Mae llawer o bethau mewn bywyd yn adeiladu ar yr hyn sydd wedi mynd o'r blaen - yn union fel tai mae angen ar ein galwad sylfeini cryf a chadarn sy'n cael eu hadeiladu'n gyntaf. Neu yn syml mae angen sail gref ar dai i'w hadeiladu arni. Ac felly mae i ninnau.

Mae hyn yr un fath i'r rhai sy'n Gristnogion. Mae gennym sylfaen gadarn a ddarperir gan Iesu, a'r eglwys sydd wedi mynd o'n blaenau ac rydym yn adeiladu ein bywydau ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'i fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad.

Os mai Iesu yw'r sylfaen ar gyfer adeiladu ein bywydau, yna mae angen inni wybod ym mha ffyrdd y gweithredodd Iesu, er mwyn inni allu ei efelychu.

Cwestiwn – sut wnaeth Iesu fyw? Beth wnaeth e? (*Gallai enghreifftiau gynnwys iachau pobl sâl, rhannu â'r tlawd, cydfwyta, siarad â Duw, rhannu straeon i helpu pobl ddeall rhywbeth, caru pobl)*

Mae'r rhain i gyd yn swnio fel enghreifftiau gwych.

Os ydych am adeiladu tŷ, mae adeiladu'r sylfeini cadarn yn bwysig fel y gellir adeiladu'r waliau'n syth ac fel na fydd y tŷ yn dymchwel. Rydyn ni wedi trafod Iesu fel sylfaen gref, ond mae'r brics a ddefnyddir i adeiladu tŷ yn bwysig hefyd.

Cwestiwn - Meddyliwch am Gristnogion sydd wedi eich dysgu sut i fod yn debycach i Iesu. *(Gallai enghreifftiau gynnwys rhieni, neiniau a theidiau, gweithwyr ieuenctid, gweinidogion, Cristnogion yn y cyfryngau, seintiau, cenhadon, ffrindiau. Os ydych yn defnyddio blociau adeiladu neu'n dangos hyn yn weledol efallai y byddwch am bentyrru'r enwau hyn ar ben yr enghreifftiau blaenorol a fu'n sylfaen.) Os oes amser, pan fydd rhai o'r gynulleidfa yn rhannu enw, efallai yr hoffech chi ofyn 'beth wnaeth y person hwn a ddysgodd fwy ichi am Iesu?'*

Os mai Iesu yw'r garreg sylfaen, yna gallem weld pob un o'r bobl hyn, sydd wedi dysgu mwy i ni am Iesu, fel brics yn nhŷ Dduw. Efallai bod tŷ Dduw yn lle corfforol, megis eglwys, ond mae hefyd yn gymuned o gredinwyr.

Y newyddion da yw bod pob un ohonom ni yma hefyd yn rhan o'r adeilad anhygoel hwn sy'n cael ei adeiladu gan Dduw. Dydyn ni ddim yn Gristnogion ar wahân, ond rydyn ni'n gymuned, yn adeiladu ar waith Duw sydd wedi digwydd o'r blaen. Nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i ni wneud yr un tasgau â'r rhai a adeiladodd o'n blaenau, mae'n rhaid i ni fod yn berthnasol i'r byd fel y mae ar hyn o bryd yn 2023 a thu hwnt, ond yr un yw'r pwrpas - bod pawb yn dod i adnabod cariad Duw.

Gadewch i ni glywed am hyn yn ein darlleniad Beiblaidd cyntaf:

**1 Pedr 2:2-10**

**CFf 612 Un sylfaen fawr yr Eglwys**

**Ioan 14:1-14**

**Pregeth** – offeiriadaeth frenhinol etholedig o bobl gyffredin.

*Ceir cwestiynau trwy gydol y bregeth ac efallai y byddwch am ganiatáu amser ar gyfer myfyrio unigol*

*tawel, siarad mewn grwpiau bach, neu sgwrs agored fel grŵp cyfan.*

Fel hyn dywed gweddi a briodolir i Syr Francis Drake

‘O Arglwydd Dduw, pan roddir i'th weision unrhyw orchwyl mawr, pâr inni wybod hefyd nad y dechreuad sy’n bwysig ond y parhâd tan i’r gorchwyl gael ei gwblhau.
Hyn sy’n dod â gwir ogoniant.’

Pa mor rhyfeddol yw'r geiriau hyn? *Dywed Drake yn y gerdd “Nid y dechreuad ond y parhâd”*, sy’n cyflwyno’r hyn a eilw Drake yn wir ogoniant – gogoniant i Dduw. Neu fel y dywed Ioan yn ein darlleniad o’r Beibl, wrth ddilyn Iesu, sef Y Ffordd, y datguddir y Tad.

Efallai y byddwn yn meddwl nad ydym yn ddigon da i barhau â gwaith Iesu, os felly, peidiwch â phoeni, cofiwch ein bod yn 1 Pedr yn darllen ein bod yn offeiriadaeth frenhinol o bobl gyffredin. Mae pobl gyffredin fel chi a fi yn cael eu gwahodd i barhau yn y ffyrdd y dysgodd Iesu inni. Nid ydym yn cael ein galw fel unigolion ar ein pen ein hunain, fe’n gelwir fel unigolion i ymateb i gariad Duw, ac mae rhan o’r ymateb hwnnw yn ein galw i mewn i gymuned gyda phobl gyffredin eraill a gyda’n gilydd rydym yn offeiriadaeth frenhinol.

Gelwir ar bobl yr eglwys i barhau â’r gwaith a ddechreuwyd gan Dduw a flodeuai yng Nghrist. “Yn wir,

rwy'n dweud wrthych, bydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi hefyd yn gwneud y gweithredoedd yr wyf fi'n eu gwneud; yn wir, bydd yn gwneud rhai mwy na'r rheini, oherwydd fy mod i'n mynd at y Tad.” Ioan 14:12

Rydyn ni'n parhau â gwaith Duw a ddechreuodd Duw mewn pobl sydd wedi mynd o'n blaenau.

Ddydd Sadwrn 6 Mai 2023, coronwyd Siarl III yn Frenin y Deyrnas Unedig, Dibynwledydd y Goron, a Thiriogaethau Tramor Prydain, ac mae bellach yn bennaeth y Gymanwlad. Beth bynnag yw eich barn chi am frenhiniaeth, mae hon yn enghraifft ddiddorol wrth inni archwilio’r themâu yn ein darnau o’r Beibl yr wythnos hon. Wrth inni weld y brenin hwn, Siarl III yn adeiladu ar yr hyn a fu o'r blaen, gofynnwn, beth y gelwir arnom i'w wneud sy'n adeiladu ar yr hyn y mae Duw wedi'i wneud o'r blaen yn ein cymunedau?

Cwestiwn - Beth ym mywyd y gymuned hon sy'n digwydd oherwydd y bobl sy'n dal i fod yn rhan o'r eglwys hon neu a oedd yn rhan o'r eglwys hon yn y gorffennol? *Un enghraifft fyddai bod grŵp rhieni a phlant bach wedi cychwyn oherwydd bod un fam ifanc o’r eglwys eisiau cyfarfod â rhieni eraill felly fe wnaeth hi wahodd pobl i gyfarfod unwaith yr wythnos.*

The Methodist Church

Mae pawb yn y gymuned hon sy’n perthyn i Grist wedi eu galw i'w waith. Pa bynnag gyfnod mewn bywyd, mae yna ran i ni ei chwarae, a bydd hynny’n newid wrth i ni newid.

Roedd Iesu, yn y darn rydyn ni’n ei ddarllen yn efengyl Ioan, yn cysuro ei ddisgyblion. Pobl gyffredin oedd y rhain a oedd wedi gweld gweithredoedd rhyfeddol Duw.

Llythyr yw llyfr 1 Pedr a ysgrifennwyd at gymuned Gristnogol wasgaredig yn Asia Leiaf – gwledydd fel Twrci, Syria, Iran ac Irac erbyn hyn, ac mae’r llythyr hwn yn eu hatgoffa i sefyll yn gadarn ar Crist eu sylfaen mewn amseroedd anodd a’r wyneb erledigaeth. Ysgrifennwyd y llythyr at bobl gyffredin oedd yn wynebu amgylchiadau digynsail yn eu hamser eu hunain.

Mae'r llythyr yn sôn am offeiriadaeth frenhinol. Defnyddiwyd iaith o’r fath o’r blaen i ddisgrifio pobl Israel, pobl a oedd wedi'u gosod ar wahân, i ddangos rhywbeth o gymeriad Duw i eraill. Ond nawr mae lle i bawb allu cyfrannu a thystio yng ngwaith Duw.

Mae'r Brenin Siarl III wedi'i goroni. Mae wedi'i neilltuo ar gyfer rôl benodol, ond neges Gristnogol offeiriadaeth frenhinol yw ein bod ni i gyd, pob un ohonom bobl gyffredin, yn cael ein neilltuo, i ddangos rhywfaint i’r byd sut un yw Duw.
Iesu yw'r sylfaen a ni yw'r brics, rydym wedi'n gosod o'r neilltu fel y gellir adeiladu tŷ cyfiawnder a heddwch.

Mae heddiw yn Sul Galwad ac rydym yn dathlu amrywiaeth pob galwad fel eglwys.

Daw’r gair galwad o'r gair Lladin *vocare*, i alw, ac mae'n golygu'r gwaith y mae person yn cael ei alw iddo gan Dduw. Y peth astrus yw adnabod a dirnad llais Y Galwr, llais Duw. Dywedir yn aml mai’r math o waith y mae Duw fel arfer yn ein galw iddo yw’r math o waith (a) y mae angen inni ei wneud fwyaf a (b) y mae angen i’r byd fod wedi’i wneud fwyaf.

Mae hyn yn golygu bod gan bob un ohonom alwad.

Nid yw ein galwad yn digwydd ar wahân, ond fel rhan o’r parhad o rannu’r gwaith y mae Duw yn ei wneud. Gyda'n gilydd ni yw brics y tŷ, ein galwad yw gwaith Duw yn parhau mewn pobl gyffredin.

I rai efallai bod parhau â'r gwaith hwn yn golygu edrych ar weinidogaeth llawn amser. Ac i bob un ohonom mae ein galwad fel pobl Dduw yn golygu byw ein ffydd mewn bywyd bob dydd. Efallai ein bod ni’n teimlo ein bod ni yn y lle iawn ar yr amser iawn, neu efallai ddim, efallai ein bod ni’n teimlo ein bod ni’n cael ein galw gan Dduw i fod ochr yn ochr â’r rhai sydd mewn angen a gallai hynny olygu ein bod ni’n gwneud rhai newidiadau i’r ffordd rydyn ni’n defnyddio ein hamser neu ein harian. Efallai y byddwn ni'n teimlo ein bod ni'n cael ein galw gan Dduw o'r hyn rydyn ni'n ei wneud

nawr i rywbeth newydd. P'un a ydym yn y lle iawn neu'n cael ein galw i rywle neu rywbeth newydd, gall hynny ddigwydd yn yr ysgol, yn y ffatri neu'r swyddfa, mewn elusennau, clybiau pêl-droed, tafarndai, caffis, ac eglwysi - unrhyw le. Efallai bod gennym ni alwad mewn bywyd ehangach a hefyd galwad ym mywyd yr eglwys. I rai, gallai parhau â gwaith Duw gynnwys gwirfoddoli fel swyddog diogelu, trysorydd, croesawydd, trefnydd blodau, neu wneuthurwr cacennau gwych ar gyfer te a choffi ar ôl capel.

Rydyn ni i *gyd* yn cael ein hadeiladu i mewn i'r un tŷ ysbrydol sy'n seiliedig ar sylfaen gadarn Iesu, ac mae ein brics yn eistedd ochr yn ochr â gwaith a thystiolaeth y rhai sydd wedi bod o'n blaenau ac sydd o'n cwmpas. Rydyn ni i gyd yn bobl gyffredin, ac eto rydyn ni i gyd yn offeiriadaeth frenhinol, wedi ein galw i ymuno â gwaith Duw wrth adeiladu Ei deyrnas o gariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanddisgyblaeth.

Cwestiwn – ystyriwch beth rydych chi’n ei wneud i barhau â gwaith Duw? Ydych chi'n cael eich gwthio i gyfeiriad newydd?

Roedd Iesu yn gwneud yn hysbys presenoldeb Duw, mawredd a thrugaredd Duw, gras a gogoniant Duw, cariad parhaus Duw ar y ddaear hon. Mae Iesu’n sôn am y Mab yn gwneud gogoniant y Tad yn hysbys.

Roedd Iesu yn gwneud yn hysbys y gallem fod mewn perthynas â chreawdwr yr holl ddaear a nefoedd a theyrnasoedd - Bod hwn yn Dduw sy'n bresennol yn yr holl greadigaeth, gan gynnwys ni.

Efallai y byddwn ni'n ei chael hi'n anodd dilyn ffyrdd Iesu, efallai ein bod ni wedi gwneud llanast o bethau, ond rydyn ni wedi ein maddau a'n caru a'n gwahodd gan Dduw cariadus i ymuno â'r Ysbryd Glân i wasanaethu'r byd er mwyn i bawb adnabod cariad Duw.

Yn y llythyr a ddarllenwn, 1 Pedr, iaith dod o dywyllwch i oleuni sydd yno. Y goleuni yw perthynas bersonol â Duw a hefyd goleuni byd cyfiawn lle mae teyrnas Dduw yn cael ei gwireddu. Mae llawer ohonom yn gwybod rhywbeth am y goleuni hwn yn ein bywydau a'r gwahoddiad sydd i fyw ein bywydau fel y gellir galw eraill allan o'r tywyllwch ac adnabod y goleuni.

**CFf 819 O am awydd cryf i feddu**

**Gweddïau o eiriolaeth**

Boed inni adeiladu tŷ lle gall cariad drigo, a lle gall pawb fyw'n ddiogel. Gweddïwn am heddwch yn ein byd a'n cymunedau *[gweddïwch dros faterion cyfoes y byd]*

The Methodist Church

Gwna hwn yn fyd lle bydd cariad Crist yn rhoi diwedd ar raniadau:

Sylfaen ein ffydd, **clyw ein gweddi**

Boed inni adeiladu tŷ lle mae proffwydi yn siarad. Gweddïwn dros y rhai sydd mewn rolau arweinyddiaeth, mewn llywodraeth, awdurdodau lleol, eglwysi, ysgolion a busnesau. Bydded eu geiriau yn gryf ac yn wir, a boed i bawb a wasanaethant brofi dy ras:

Sylfaen ein ffydd, **clyw ein gweddi**

Boed inni adeiladu tŷ lle ceir cariad mewn dŵr, gwin a gwenith. Gweddïwn dros y rhai sy’n newynog, yn newynog am fwyd, yn newynog am gwmni, yn newynog am atebion, yn newynog am gyfiawnder. Boed inni rannu gyda nhw y wledd sy’n ein rhyddhau ni:

Sylfaen ein ffydd, **clyw ein gweddi**

Boed inni adeiladu tŷ lle bydd dwylo'n ymestyn y tu hwnt i'r pren a'r maen i wella a chryfhau, gwasanaethu a dysgu, a byw'r Gair y maent wedi'i adnabod. Gweddïwn dros ein cymuned, y lle o amgylch y gofod hwn, y bobl yr ydym yn eu hadnabod ac yn eu caru a'r rhai yr ydym yn ei chael yn anodd eu caru. Gweddïwn dros y rhai sy’n sâl, sy’n galaru a’r rhai sy’n hysbys i ni yn nhawelwch ein calonnau.

The Methodist Church

Sylfaen ein ffydd, **clyw ein gweddi**

Boed inni adeiladu tŷ lle mae pawb yn cael eu henwi, eu caneuon a'u gweledigaethau'n cael eu clywed a'u caru a'u trysori, eu dysgu a'u harddel fel geiriau o fewn y Gair. Wedi eu hadeiladu o ddagrau ac ebychiadau a chwerthin, gweddïau ffydd a chaneuon gras; boed i'r tŷ hwn gyhoeddi o'r llawr i'r trawst:
Mae croeso i bawb, Mae pawb wedi eu galw gennyt ti.

Sylfaen ein ffydd, **clyw ein gweddi**

**CFf 563 – I Dduw bo'r gogoniant, fe wnaeth bethau mawr**

**Gweddi i gloi**
Wrth inni ddod â'r amser hwn o addoli Duw i ben, bendithia bob un ohonom, fel y byddwn yn ymwybodol bod y cyfan a wnawn yn dy enw yn rhan o barhad y gwaith yr wyt ti, Dduw cariadus wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud i ni, a phawb a wasanaethwn.

Boed i ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fod gyda ni oll, byth bythoedd, Amen